## Atodiad 2 – Llythyr Penodi SRO Drafft

### Penodiad fel Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru

Mae Uchelgais Gogledd Cymru am benodi Uwch Berchennog Cyfrifol rhanbarthol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Bydd y rôl, ochr yn ochr â rôl bresennol y Cyfarwyddwr Portffolio, yn atebol yn uniongyrchol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd (neu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar ôl trosglwyddo) am gyflawni'r Cynllun Twf gydag atebolrwydd penodol ynghylch cwmpas ac amcanion portffolio, blaenoriaethu a dethol prosiectau, rheoli newid a chau ac adolygu'r portffolio. Bydd y swydd hon yn ychwanegol at rôl a chyfrifoldebau sylweddol deiliad y swydd ac felly bydd angen amser penodol i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

Mae deiliadaeth y swydd yn parhau o'r penodiad gydag adolygiad cyfnodol gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd (neu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar ôl trosglwyddo).

Yn y pen draw, mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd (neu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar ôl trosglwyddo) yn atebol am gyflawni amcanion Cynllun Twf Gogledd Cymru, gan gyflawni'r canlyniadau a ragwelir a gwireddu'r buddion gofynnol. Bydd yr SRO yn gweithio gyda'r Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Portffolio i sicrhau bod trefniadau, llywodraethu a sicrwydd ar waith i fodloni'r rhwymedigaethau hyn. Wrth wneud hynny, bydd yr SRO yn sicrhau bod penderfyniadau a chyfathrebiadau allweddol yn briodol ac yn amserol gyda'r holl randdeiliaid rhanbarthol a swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'r DU.

Mae'n ofynnol i'r SRO lenwi ffurflen Asesiad Potensial Risg blynyddol a'i chyflwyno i Ganolfan Sicrwydd Llywodraeth Cymru ac arwain y broses adolygu sicrwydd flynyddol ar y portffolio ac i sicrhau bod y Cyfarwyddwr Portffolio yn gweithredu ar unrhyw argymhellion dilynol.

Mae'r SRO hefyd yn gyfrifol am reoli newid Cynllun Twf Gogledd Cymru. Rhaid i'r Bwrdd awdurdodi newidiadau arfaethedig i'r cwmpas a allai effeithio ar weledigaeth, amcanion neu wireddu buddion y portffolio oni bai eu bod wedi'u dirprwyo o dan y Strategaeth Rheoli Newid bresennol a gall newidiadau ar lefel portffolio fod yn amodol ar lefelau pellach o gymeradwyaeth yn Llywodraeth Cymru a'r DU. Byddai'r cyfrifoldeb hwn hefyd yn cynnwys y potensial i argymell, mewn modd amserol, i'r Bwrdd, yr angen i naill ai oedi neu derfynu'r Rhaglen neu brosiectau penodol lle bo angen.

Nodir cyfrifoldebau'r rôl a'r rhaniad rhwng yr SRO, y Cyfarwyddwr Portffolio a'r Prif Weithredwr yn Atodiad 1.